# CYNGOR SIR Y FFLINT

# DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982

## Is-ddeddfau perthnasol i aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis

Is-ddeddfau i'r diben o sicrhau glendid eiddo a gofrestrwyd dan adrannau 14(2) neu 15(2) neu o dan y ddwy adran o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, ynghyd â glendid ffitiadau mewn eiddo o'r fath a phobl sydd wedi'u cofrestru dan adrannau 14(1) neu 15(1) neu o dan y ddwy adran, a'r rhai hynny sy'n eu cynorthwyo nhw, ac i sicrhau bod offer, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad ag ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis, yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y bo'n briodol, yn cael eu sterileiddio. Gwnaed yr is-ddeddfau hyn gan Gyngor Sir y Fflint yn unol ag adrannau 14(7) neu 15(7) y Ddeddf, neu'r ddwy adran.

**1. Dehongli**

(a) Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall—

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982;

ystyr "anifail" yw unrhyw ymlusgiad, mamaliaid a phob creadur byw arall sy'n perthyn i fyd yr anifeiliaid;

Mae "glân" yn golygu nad yw wedi ei ddefnyddio'n flaenorol un ai; yn achos eitem untro ddim o gwbl, neu yn achos eitem y gellir ei ailddefnyddio, ers y tro diwethaf iddo gael ei olchi'n drylwyr a'i ddiheintio neu ei sterileiddio fel sy'n briodol a'i gadw mewn amodau hylan ers hynny

ystyr "cleient" yw unrhyw un sy'n cael triniaeth;

ystyr "offeryn tyllu hylan" yw offeryn y mae unrhyw ran ohono sy'n cyffwrdd â chleient wedi'i wneud i'w ddefnyddio gyda chleient unigol, a hwnnw'n offeryn di-haint, tafladwy ac sydd wedi'i osod â gemwaith tyllu a ddarparwyd mewn deunydd pacio sy'n dangos

ar gyfer pa ran o'r corff y mae wedi'i fwriadu, ac sydd wedi'i ddylunio i dyllu naill ai –

(i) y llabed

(ii) cartilag gwastad uchaf y glust

ystyr "gweithredwr" yw unrhyw berson sy'n rhoi triniaeth, gan gynnwys perchennog;

ystyr "eiddo" yw unrhyw eiddo sydd wedi'i gofrestru dan adrannau 14(2) neu 15(2) y Ddeddf;

ystyr "perchennog" yw unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru dan adrannau 14(1) neu 15(1) y Ddeddf;

ystyr "triniaeth" yw unrhyw weithred i wneud gwaith aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis;

ystyr "man triniaeth" yw unrhyw ran o'r eiddo lle rhoddir triniaeth i gleientiaid

(b) Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r is-ddeddfau hyn fel y mae i ddehongli Deddf Seneddol

2. (1) I'r diben o sicrhau glendid eiddo a'r ffitiadau mewn eiddo bydd perchennog yn sicrhau

(a) bod unrhyw wal fewnol, drws, ffenestr, pared, llawr, gorchudd lawr neu nenfwd yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr digon da fel bod modd eu glanhau'n effeithiol,

(b) bod unrhyw ddeunydd gwastraff, neu unrhyw sbwriel arall sy'n deillio o driniaeth, yn cael ei roi, yn syth ar ôl ei ddefnyddio mewn cynhwysydd gwastraff priodol gyda chaead sy'n agor gyda phedal, ac yn cael ei drin a'i daflu yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ôl cyngor yr awdurdod lleol

(c) bod unrhyw nodwydd, rasel neu eitem finiog arall a ddefnyddiwyd yn ystod triniaeth yn cael ei thaflu i gynhwysydd cyfarpar miniog sy'n cael ei gadw allan o gyrraedd cleientiaid a'r cyhoedd, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ôl cyngor yr awdurdod lleol;

(d) bod unrhyw ddodrefn neu ffitiadau mewn eiddo'n cael eu cadw'n dda ac mewn cyflwr digon da i alluogi eu glanhau'n effeithiol

(e) bod gan unrhyw fwrdd, soffa neu sedd a ddefnyddir gan gleient yn y man triniaeth a allai gael ei halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill, ac unrhyw arwyneb y rhoddir

nodwydd, offeryn neu gyfarpar arno yn syth cyn y driniaeth wyneb anhydraidd llyfn sy'n cael ei lanhau a'i ddiheintio --
(i) yn syth ar ôl ei ddefnyddio; ac
(ii) ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

(f) bod unrhyw fwrdd, soffa, neu eitem arall o ddodrefn a ddefnyddir yn ystod triniaeth yn cael eu gorchuddio â dalen o bapur tafladwy sy'n cael ei newid rhwng pob cleient;

(g) na chaniateir bwyta, yfed nac ysmygu yn y man triniaeth a bod arwydd neu arwyddion sy'n dweud "Dim Bwyta nac Yfed" wedi'u harddangos mewn lle amlwg ; dylai arwyddion 'Dim Ysmygu' fod wedi'u harddangos yn amlwg wrth y fynedfa i'r eiddo neu yn agos at y fynedfa yn unol â Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru 2007)

(h) nad oes unrhyw anifeiliaid yn cael bod yn yr eiddo cofrestredig. Bydd hyn yn rhwystro'r eiddo rhag cael ei faeddu ac yn atal fermin. Rhaid rhoi eithriad ar gyfer anifeiliaid cymorth a ddefnyddir gan bobl â nam ar eu golwg a/neu eu clyw –

(2) (a) Yn amodol ar is-baragraff (b) lle bo eiddo wedi'i gofrestru dan adran 14(2) (aciwbigo) neu 15(2) (tatŵio,lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) o ddeddf 1982, bydd perchennog yn sicrhau y rhoddir triniaeth mewn ardal driniaeth sy'n cael ei defnyddio dim ond i roi triniaeth ac nid ar gyfer unrhyw beth arall.

(b) Nid fydd is-baragraff (a) yn berthnasol os mai'r unig driniaeth a roddir yn yr eiddo yw tyllu clustiau gydag offeryn tyllu hylan.

(3) (a) Yn amodol ar is-baragraff (b) lle cofrestrwyd eiddo dan adran 15(2) (tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol a thyllu cosmetig) o Ddeddf 1982, bydd perchennog yn sicrhau bod wyneb llyfn, anhydraidd i lawr yr ardal driniaeth.

(b) Nid fydd is-baragraff (a) yn berthnasol os mai'r unig driniaeth a roddir yn yr eiddo yw tyllu clustiau gydag offeryn tyllu hylan.

**3.** (1) Er mwyn sicrhau bod nodwyddau, offer, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad â thriniaeth yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y bo'n briodol, eu sterileiddio -

.

(a) rhaid i weithredwr sicrhau -

(i) bod unrhyw ŵn, gorchudd neu ddilledyn amddiffynnol arall, papur neu orchudd arall, lliain, clwt neu

unrhyw beth arall tebyg a ddefnyddir yn ystod triniaeth -

(aa) yn lan ac mewn cyflwr da ac os yw hynny'n briodol, yn ddi-haint neu wedi'u sterileiddio

(bb) heb eu defnyddio mewn perthynas ag unrhyw gleient arall oni bai eu bod o ddefnydd y gellir ac sydd wedi, ei lanhau yn ddigonol, ac os yw hynny'n briodol, wedi'i sterileiddio.

(ii) bod unrhyw nodwydd untro, offeryn metel, neu offeryn neu gyfarpar arall a ddefnyddir mewn triniaeth neu ar gyfer dal nodwydd, offeryn neu gyfarpar o'r fath, ac unrhyw ran o offeryn tyllu hylan sy'n cyffwrdd cleient, yn ddi-haint;

(iii) mai dim ond raseli defnydd untro tafladwy a ddefnyddir;

(iv) un os bydd jeli petrolewm neu gel iro yn cael ei roi ar groen cleient, mai digon ar gyfer un client yn unig y dylid ei gymryd gyda sbatwla glân o'r prif gynhwysydd a'i roi mewn cynhwysydd arall sydd naill ai'n cael ei daflu ar ôl pob triniaeth neu'n cael ei lanhau a'i sterileiddio cyn ei ddefnyddio eto.

(v) bod bandiau elastig a bagiau plastig a ddefnyddir ar beiriannau tatŵio'n cael eu taflu ar ôl eu defnyddio gydag cleient.

(vi) bod unrhyw emwaith a ddefnyddir ar gyfer tyllu cosmetig gydag offeryn tyllu hylan yn ddi-haint

(vii) i ddibenion tatŵio neu i liwio croen yn lled-barhaol, mai dim ond pigment anadweithiol di-haint sydd wedi'i roi mewn potiau defnydd untro neu wedi'i roi yn barod mewn ffiolau defnydd untro a gaiff ei ddefnyddio.

(viii) bod unrhyw gynhwysydd a ddefnyddir i ddal lliw ar gyfer tatŵio neu liwio croen yn lled-barhaol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer un cleient yn unig ac yn cael ei daflu, ynghyd ag unrhyw liw sydd ar ôl, ar ddiwedd pob triniaeth.

(b) bydd perchennog yn darparu -

(i) cyfleusterau ac offer digonol

(aa) i lanhau a diheintio, yn cynnwys sinc pob pwrpas gyda chyflenwad o ddŵr poeth ac oer ar yr eiddo yn ychwanegol at y basn golchi dwylo sy'n ofynnol dan 4(b)(i). Dylai'r sinc

pob pwrpas hwn fod wedi'i osod rywle y tu allan i'r ardal driniaeth ble bynnag bosib ac ym mhob achos lle sefydlir eiddo newydd ar ôl i'r Is-ddeddfau hyn ddod i rym; ac

(bb) i sterileiddio, oni bai mai dim ond eitemau wedi'u sterileiddio ymlaen llaw a ddefnyddir. Bydd yr holl offer sterileiddio'n cael ei wasanaethau a'i gynnal a'i gadw ar gyfnodau a bennir gan unigolyn cymwys a chymwysedig a'i brofi o dro i dro gan y gweithredwr i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol. Rhaid cadw cofnodion o gylchoedd cynnal a chadw, gwasanaethu, profi a gweithredu offer yn yr eiddo drwy gydol oes yr offer ac am chwe mis ar ôl cael gwared arno. Rhaid cyflwyno'r cofnodion hyn i'w harchwilio ar gais swyddog awdurdodedig y cyngor.

(ii) digon o bwyntiau nwy a socedi trydan diogel yn yr eiddo

(iii) cyflenwad digonol a chyson o ddŵr glân poeth ac oer yn yr eiddo

(iv) mannau storio glân ac addas sy'n osgoi halogiad yr eitemau, nodwyddau, offerynnau ac offer a nodir yn mharagraffau 2(1)(a)(i) (ii), (iii), (iv), (v), (vi), (vii) a (viii).

**4.** (1) I'r diben o sicrhau glendid gweithredwyr, bydd perchennog -

(a) yn sicrhau bod gweithredwr yn cael cyfarwyddyd ar dechnegau dadhalogi dwylo priodol a hylan -

(i) a'u bod yn cadw eu dwylo'n lân gydag ewinedd glân, byr heb baent, addurn nac unrhyw fath o orchudd ewinedd;

(ii) yn cadw unrhyw friwiau agored ar rannau o'r corff y gellir eu gweld wedi'u gorchuddio'n effeithiol â gorchudd anhydraidd.

(iii) yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n dda a heb eu defnyddio'n barod gyda chleient arall, oni bai eu bod yn rhoi triniaeth aciwbigo dan amgylchiadau ar wahân i'r hyn a ddisgrifir ym mharagraff 4(3);

(iv) yn gwisgo gŵn, gorchudd neu ddillad amddiffynnol glân ac y mae modd eu golchi, neu fel arall orchudd

tafladwy nad yw wedi cael ei ddefnyddio'n barod wrth roi triniaeth i gleient arall.

(v) ddim yn ysmygu nac yn bwyta nac yn yfed yn yr ardal driniaeth a (b) yn darparu -

(i) basnau golchi dwylo addas a digonol gyda thapiau sy'n gweithio heb ddefnyddio'r dwylo wedi'u lleoli mewn mannau priodol at ddefnydd gweithredwyr yn unig, gyda chyflenwad digonol a chyson o ddŵr glân poeth ac oer, sebon hylif a thyweli papur mewn cynhwysydd ar y wal wrth ymyl y basn golchi dwylo. Dylai cyfarwyddiadau golchi dwylo fod wedi'u harddangos yn glir wrth ymyl basnau o'r fath.

(ii) man glanweithiol addas a digonol ar gyfer gweithredwyr

(2) Os yw gweithredwr yn rhoi triniaeth gydag offeryn tyllu hylan yn unig a bod y perchennog yn rhoi naill ai gel neu hylif glanhau hylan iddynt, nid oes yn rhaid i'r cyfleusterau ymolchi a ddarperir gan y perchennog fod at ddefnydd y gweithredwr yn unig.

(3) Mae'n rhaid i berchennog sicrhau bod aciwbigo yn cael ei gyflawni gan weithredwr sydd wedi golchi eu dwylo yn syth cyn iddynt fynd ati i aciwbigo unrhyw gleient. Bydd perchennog yn sicrhau bod gweithredwr aciwbigo yn gwisgo menig tafladwy llawfeddygol sy'n ffitio'n dda nad ydynt wedi eu defnyddio gydag unrhyw gleient arall -

(a) os yw cleient yn gwaedu neu os oes ganddynt friw agored ar ran o'u corff y gellir ei weld; neu

(b) os yw'r perchennog/gweithredwr yn gwybod fod gan y cleient feirws a gludir yn y gwaed

(c) os oes gan weithredwr friw agored ar eu llaw; neu

(d) os yw'r gweithredwr yn trin eitemau a allent fod wedi'u halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill.

**5.** Dylai unigolyn sydd wedi'i gofrestru yn unol ag adrannau 14 (aciwbigo) neu 15 (tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) o'r Ddeddf sy'n ymweld â phobl ar gais i roi triniaeth gadw at y gofynion perthnasol i weithredwyr a nodir ym mharagraffau 3(1)(a) a 4(1)(a) .

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR Y FFLINT

at hyn ar y 4th diwrnod o

Gorffenaff 2023

ym mhresenoldeb:

CHAIR

CHIEF OFFICER (GOVERNANCE)

**Bydd yr Is-ddeddfau hyn yn dod yn weithredol ar 01 AWST 2023**

**SYLWCH – NID YW'R CANLYNOL YN RHAN O'R IS-DDEDDFAU**

Fe fydd perchnogion yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod pobl sy'n gweithio yn yr eiddo yn cydymffurfio â'r is-ddeddfau hyn. Mae adran 16(9) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn nodi bod rhaid i unigolyn cofrestredig arddangos copi o'r is-ddeddfau hyn a chopi o unrhyw dystysgrif gofrestru sydd wedi ei rhoi iddo dan Ran VIII y Ddeddf, mewn lle amlwg yn yr eiddo. Bydd unigolyn sy'n mynd yn groes i adran 16(9) yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i dalu dirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (gweler adran 16(10)).

Mae adran 16 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 hefyd yn nodi y bydd unrhyw unigolyn sy'n torri'r is-ddeddfau hyn yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Os bydd unigolyn a gofrestrwyd o dan Ran VIII y Ddeddf yn cael ei ddyfarnu'n euog o dorri'r is-ddeddfau hyn, gallai'r Llys, yn lle neu'n ychwanegol at osod dirwy, orchymyn i gofrestriad yr unigolyn gael ei atal dros dro neu ei ddiddymu. Gallai llys sy'n gorchymyn atal cofrestriad unigolyn dros dro neu ddiddymu'r cofrestriad hwnnw hefyd orchymyn atal dros dro neu ddiddymu cofrestriad yr eiddo y cyflawnwyd y drosedd ynddo, os mai'r unigolyn a ddyfarnwyd yn euog o'r drosedd yw deiliad yr eiddo hwnnw. Mae'n amddiffyniad i'r sawl sydd wedi'i gyhuddo o dan is-adrannau perthnasol adran 16 brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd.

Nid oes unrhyw beth yn yr is-ddeddfau hyn yn cwmpasu ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig nac electrolysis gan, neu o dan oruchwyliaeth, unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel ymarferydd meddygol, nac yn cwmpasu eiddo lle mae ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis yn cael ei gyflawni gan, neu o dan oruchwyliaeth, unigolyn o'r fath.

Nid oes unrhyw beth yn yr is-ddeddfau hyn yn cwmpasu ymarfer aciwbigo gan, neu o dan oruchwyliaeth, unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel deintydd, nac yn cwmpasu eiddo lle mae ymarfer aciwbigo yn cael ei gyflawni gan, neu o dan oruchwyliaeth, unigolyn o'r fath.

Y darpariaethau deddfwriaethol sy'n berthnasol i aciwbigo yw'r rhai hynny yn Adran 14. Mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i driniaeth nad yw'n driniaeth aciwbigo yn adran 15.

Dyma'r gwahaniaethau allweddol yn y modd y mae'r gofynion yn gymwys mewn perthynas â'r amrywiol driniaethau:

*Mae'r cyfeiriadau yn y testun rhagarweiniol at ddarpariaethau adran 14 (aciwbigo) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982* **yn gymwys i aciwbigo yn unig.**

**Nid** yw'r *cyfeiriadau yn y testun rhagarweiniol at ddarpariaethau adran 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982* **yn gymwys i aciwbigo.**

*Mae'r cyfeiriadau ym mharagraff 1(1) yn y diffiniad o "eiddo", at ddarpariaethau adran 14 (aciwbigo)* **yn gymwys i aciwbigo yn unig.**

**Nid** yw'r *cyfeiriadau ym mharagraff 1(1) yn y diffiniad o "eiddo" at ddarpariaethau adran 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis)* **yn gymwys i aciwbigo.**

*Mae'r gofyniad ym mharagraff 2(2) i driniaeth gael ei rhoi mewn man triniaeth a ddefnyddir yn unswydd ar gyfer rhoi triniaeth,* **yn gymwys i aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, ond nid i dyllu'r glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.**

*Mae'r gofyniad ym mharagraff 2(3) bod rhaid cael arwyneb anhydraidd llyfn ar lawr y man triniaeth* **yn gymwys i datŵio, lliwio croen yn lled-barhaol a thyllu cosmetig, ond nid i aciwbigo nac electrolysis na thyllu clustiau gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.**

*Mae'r gofynion sy'n ymwneud â lliw neu gynhwysydd a ddefnyddir i ddal lliw i'w ddefnyddio ar gyfer triniaeth ym mharagraffau 3(1) (a) (vii) a (viii)* **yn gymwys i datŵio a lliwio croen yn lled-barhaol.**

**Nid** yw'r *gofyniad ym mharagraff 4(1) (a)(iii) bod gweithredwr yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n iawn ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall* **yn gymwys i aciwbigo, ac eithrio yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 4(3).**

*Mae darpariaethau paragraff 4(2) yn ymwneud â chyfleusterau ymolchi* **yn gymwys i dyllu cosmetig yn defnyddio offer tyllu hylan yn unig.**

*Mae'r eithriad lle nad yw'r is-ddeddfau'n berthnasol i driniaeth a wneir gan neu o dan oruchwyliaeth* **deintydd** *yn berthnasol i* **aciwbigo yn unig (gweler adran 14(8) y Ddeddf).**